

Safonau Iechyd a Gofal

Ebrill 2015



Rhagair gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ar 9 Gorffennaf 2013 fe roddon ni ymrwymiad i adolygu a diweddarau'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru a'r Safonau Hanfodion Gofal.

Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2015 fe ymgynghoron ni ynghylch fframwaith diwygiedig o safonau i helpu i gyflenwi gwasanaethau o safon uchel yn y GIG yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid ac fe gasglwyd eu barn am y newidiadau yr oedd eu hangen wrth inni ddatblygu ein Safonau Iechyd a Gofal newydd. Er mwyn cynyddu i'r eithaf niferoedd y rhanddeiliaid a'r aelodau o'r cyhoedd a fyddai'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, fe drefnodd Llywodraeth Cymru dri digwyddiad ymgynghori.



Mae Fframwaith Canlyniadau a Chyflenwi'r GIG yn un o'r tri fframwaith sy'n cael eu cyhoeddi i helpu i ysgogi gwelliant parhaus yn iechyd a lles pobl Cymru; mae'r lleill yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd. Mae'n nodi canlyniadau a dangosyddion allweddol ar gyfer y boblogaeth a'r rheiny wedi'u grwpio dan saith thema. Cafodd y themâu eu datblygu trwy ymgysylltu â chleifion, clinigwyr a rhanddeiliaid ac adnabod y meysydd blaenoriaeth yr oeddent hwy am iddynt gael eu defnyddio i fesur y GIG. Er bod gan bob un o'r tri fframwaith ei swyddogaeth unigol ei hun, maent i gyd yn cydnabod eu cydgyssylltiadau a bydd mesurau cyffredin yn cael eu defnyddio i gefnogi gwaith mewn partneriaeth ac i gyflawni gwelliannau mewn iechyd a lles.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal wedi'u cynllunio fel eu bod yn cyd-fynd â'r saith thema a chymerwyd y cyfle hefyd wrth eu datblygu i nodi canlyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal wedi'u cynllunio hefyd fel y gellir eu rhoi ar waith ym mhob gwasanaeth, safle a lleoliad gofal iechyd. Maent yn sefydlu sail i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd trwy ddarparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i adnabod cryfderau ac amlygu meysydd i'w gwella. Rhaid i'r cyhoedd a chleifion eu hunain gymryd cyfrifoldeb am helpu'r GIG i'w helpu hwy trwy gydweithio gydag ef a thrwy gymryd camau darbodus i ddiogelu a hybu eu hiechyd eu hunain.

Mae'n bleser gennyf gymeradwyo'r Safonau Iechyd a Gofal ichi. Maent yn arwydd pellach o'n hymrwymiad parhaus i wella iechyd a lles poblogaeth Cymru ac ansawdd y gofal iechyd a ddarperir.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhan 1

Tudalen

Cyflwyniad	4
Fframwaith Deddfwriaethol	4
Gweledigaeth ac Egwyddorion	4
Diben	5
Terminoleg	6

Rhan 2

Strwythur y Safonau Iechyd a Gofal	7
------------------------------------	---

Cadw'n Iach	10
-------------	----

Gofal Diogel	12
--------------	----

Gofal Effeithiol	20
------------------	----

Gofal Gydag Urddas	25
--------------------	----

Gofal Amserol	28
---------------	----

Gofal Unigol	29
--------------	----

Staff ac Adnoddau	34
-------------------	----

Rhan 3

Defnyddio'r Safonau Iechyd a Gofal	36
------------------------------------	----

Rhestr Termau	37
---------------	----

Cyflwyniad

Yn 2013, cytunodd Llywodraeth Cymru fod angen adolygu Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru (2010) a'r Safonau Hanfodion Gofal (2003), a oedd yn gyfle i gysoni safonau sy'n tanategu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd wedi'u bwriadu i gael eu rhoi ar waith ym mhob sefydliad, safle a lleoliad gofal iechyd, a chan bob tîm a gwasanaeth.

Mae gan bawb yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu sy'n helpu eraill i'w defnyddio, boed hynny mewn ysbyty, safle gofal sylfaenol, yn eu cymuned neu yn eu cartref, hawl i gael gofal rhagorol yn ogystal â chynghor a chymorth i gynnal eu hiechyd. Mae angen i'r holl wasanaethau iechyd yng Nghymru ddangos eu bod yn gwneud y peth cywir, yn y ffordd gywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir a chyda'r staff cywir. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn darparu'r fframwaith i helpu timau a gwasanaethau i ddangos hyn.

Darparodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru a'r Safonau Hanfodion Gofal fframwaith wedi'i ddiweddarau ac integredig o safonau a oedd wedi'u bwriadu i helpu pobl yng Nghymru i ddeall beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd a pha ran y gallant hwy eu hunain ei chwarae o ran hybu eu hiechyd a'u lles eu hunain. Maent yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau a sefydliadau, pa un a ydynt yn darparu ynteu'n comisiynu gwasanaethau ar gyfer eu dinasyddion lleol, ac mae angen iddynt gael eu perchenogi ganddynt.

Ceir crynodeb o'r prif bwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar wefan (<http://gov.wales/consultations/?skip=1&lang=cy>) Llywodraeth Cymru. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys adborth a gafwyd yn y tri digwyddiad ymgynghori, wedi goleuo'r broses o gynhyrchu'r Safonau Iechyd a Gofal hyn.

Daw'r safonau i rym o 1 Ebrill 2015 ac maent yn dwyn ynghyd ac yn diweddarau'r disgwyliadau a nodwyd yn flaenorol yn "Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru" a'r "Safonau Hanfodion Gofal" gan gydymffurfio â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Fframwaith Deddfwriaethol

Caiff Gweinidogion Cymru (Adran 47 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003) baratoi a chyhoeddi datganiadau o safonau mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru ac ar eu rhan. Mae hi hefyd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu'r safonau'n rheolaidd a gall gyhoeddi datganiadau diwygiedig pryd bynnag y mae'n ystyried bod hynny'n briodol.

Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae gan Gymru systemau cryf i sicrhau ansawdd a diogelwch yn y GIG. Mae Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol (www.wales.nhs.uk/governance-emanual/opensdoc/219549) yn nodi bod disgwyl i'r holl wasanaethau ganolbwyntio ar gleifion a chael eu llywio gan eu hanghenion. Fe greodd hyn ymrwymiad yng Nghymru i sicrhau gofal diogel, o safon uchel pryd bynnag a ble bynnag y caiff ei ddarparu trwy:

- wneud y pethau cywir yn dda;
- gwybod pa mor dda rydym yn gwneud;
- bod yn agored ac yn onest ym mhopeth a wnawn;
- dangos gofal, tosturi ac ymrwymiad;
- arwain trwy esiampl.

The Welsh Government Quality Delivery Plan for the NHS in Wales (2012 – 2016) (<http://gov.wales/docs/dhss/publications/120517qualitycy.pdf>) yn nodi'r weledigaeth glir ar gyfer GIG Cymru sy'n seiliedig ar ansawdd i gyrraedd y tri nod isod:

- darparu gofal o'r ansawdd gorau posibl a phrofiad rhagorol i'r claf;
- gwella canlyniadau iechyd a helpu i leihau anghydraddoldebau;
- sicrhau gwerth da gan ein holl wasanaethau.

Y Safonau Iechyd a Gofal fydd conglfaen y system gyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd o fewn y GIG yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r Fframwaith ar gyfer Sicrhau Profiadau Defnyddwyr Gwasanaethau (2013) (www.wales.nhs.uk/governance-emanual/document/214368) bydd yn helpu i sicrhau bod argraffiadau cyntaf ac argraffiadau parhaus pobl yn gadarnhaol, bod pobl yn cael gofal mewn amgylcheddau diogel, cefnogol ac iachusol, a'u bod yn deall ac yn chwarae rhan yn eu gofal.

Mae cydgynhyrchu'n ganolog i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r modd y mae gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn cael eu datblygu. Mae gan bawb, oedolion a phlant, hawl a gellir rhoi llais a'r cyfle iddynt gael eu clywed fel unigolyn, fel dinesydd, gan helpu i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i fod â mwy o reolaeth ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull gofal iechyd darbodus y mae'r GIG yng Nghymru yn ei gofleidio, gyda'i ffocws ar: gyflawni iechyd a lles gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cyfartal trwy gydgyngyrchu; gofalu am y rhai â'r angen mwyaf o ran iechyd yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau; gwneud dim ond yr hyn y mae ei angen a pheidio â gwneud niwed, dim mwy, dim llai; a lleihau amrywiad amhriodol gan ddefnyddio arferion seiliedig-ar-dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Caiff yr holl egwyddorion a nodir uchod eu cefnogi gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru a ddisgrifir yn y strategaeth 'Mwy na Geiriau' i sicrhau bod mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn realiti i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg.

Diben

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal:

- yn cofleidio egwyddorion cyd-gynhyrchu a gofal iechyd darbodus;
- yn cynnig iaith gyffredin i ddisgrifio gwasanaethau gofal iechyd diogel a dibynadwy o safon uchel;

- yn gallu cael eu defnyddio gan bobl o bob oed i ddeall beth ddylai gofal iechyd diogel o safon uchel ei olygu a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda;
- yn galluogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau ac ysgogi gofal sy'n gwneud pobl yn ganolog i bopeth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud;
- yn creu sail i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd trwy nodi cryfderau ac amlygu meysydd i'w gwella;
- yn gallu cael eu defnyddio mewn arfer o ddydd i ddydd i annog lefel gyson o ansawdd a diogelwch ledled y wlad ac ar draws pob gwasanaeth;
- yn hybu arfer sy'n gyfoes, yn effeithiol ac yn gyson;
- yn hybu atebolrwydd gwasanaethau iechyd i ddefnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd ac asiantaethau ariannu am ansawdd a diogelwch gwasanaethau trwy nodi sut y dylai darparwyr drefnu, cyflenwi a gwella gwasanaethau;
- yn galluogi pobl i gyfrannu'n llawn at eu hiechyd a'u lles eu hunain;
- yn cydnabod y safonau ansawdd ar gyfer darparwyr gofal a chymorth eraill a gyhoeddwyd o dan y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cael ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

Terminoleg

Pobl

Drwyddi draw yn y Safonau Iechyd a Gofal ac mewn canllawiau ategol defnyddir y term 'pobl'. Mae hwn wedi'i fwriadu i gynnwys:

- y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd;
- eu rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr a theulu;
- eu heiriolwyr enwebedig;
- darpar ddefnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd.

Defnyddir y term 'pobl' yn gyffredinol drwyddi draw yn y ddogfen hon ond o bryd i'w gilydd defnyddir y term 'claf' lle mae hyn yn fwy priodol.

Gwasanaethau Iechyd


Mae'r term hwn wedi'i fwriadu i gynnwys cyrff GIG Cymru, contractwyr annibynnol, a sefydliadau ac unigolion eraill gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gwasanaethau iechyd ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau unigol a'r cyhoedd yng Nghymru.

Strwythur y Safonau Iechyd a Gofal

Fel y mae ffigur 1 yn ei ddangos isod, mae'r saith thema wedi'u bwriadu i weithio gyda'i gilydd. Ar y cyd, maent yn disgrifio sut y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae pob thema'n cynnwys nifer o safonau. Nid yw'r rhain wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth a cheir rhywfaint o orgyffwrdd ar draws themâu a safonau. Ceir rhai safonau nad ydynt yn bodoli ar eu pennau eu hunain yn unig ond sydd â dylanwad ehangach o lawer, sef cyfathrebu'n effeithiol, gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi, llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu, cadw cofnodion, a hawliau pobl.

Ffigur 1



Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (a ddangosir yng nghanol Ffigur 1) yn cyfeirio at broses sy'n canolbwyntio ar bobl, yn hybu annibyniaeth, yn darparu dewis a rheolaeth ac yn seiliedig ar athroniaeth tîm cydweithredol. Mae'n ystyried anghenion a barn pobl ac yn meithrin perthnasoedd ag aelodau o'r teulu. Mae'n cydnabod y dylai gofal fod yn holistaidd ac felly y dylai gynnwys dimensiwn ysbrydol, bugeiliol a chrefyddol. Er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n rhaid wrth ofal diogel ac effeithiol a dylai hynny arwain at brofiad da i bobl. Mae hyn yn ymateb i'r angen a fynegwyd gan GIG Cymru i allu disgrifio penderfyniadau allweddol profiad "da" i helpu defnyddwyr a darparwyr i asesu sut y mae pobl yn teimlo pan fyddant yn cael gofal a gwasanaethau.

Gall cydgynhyrchu helpu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n rhoi blaenoriaeth i wneud cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ganolog i bob penderfyniad a chynllun sy'n ymwneud â gofal iechyd. Mae'n ystyried bod cleifion yn bartneriaid cyfartal yn y gwaith o gynllunio, datblygu ac asesu gofal i wneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd fwyaf priodol i'w hanghenion. Mae cydgynhyrchu'n ddull o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys dinasyddion, cymunedau, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi, gydag arbenigedd pawb yn cael ei gyfuno i gyflawni canlyniadau mwy effeithiol a chynaliadwy a phrofiad gwell i bawb.

Mae darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel yn ddibynnol ar lywodraethu da ac arweinyddiaeth dda, a dangosir hyn trwy eu gosod o amgylch y themâu ansawdd gyda'r label **Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**.

Manylir ar y safon isod:

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae gwasanaethau iechyd yn dangos arweinyddiaeth effeithiol trwy bennu cyfeiriad, ysgogi brwdfrydedd, cyflymder ac egni, a datblygu pobl.
- Caiff strategaeth ei phennu gyda ffocws ar ganlyniadau, ac mae dewisiadau'n seiliedig ar dystiolaeth a dealltwriaeth pobl. Mae'r dull yn un cydweithredol gan adeiladu ar ddiben cyffredin.
- Mae gwasanaethau iechyd yn arloesi ac yn gwella trefniadau cyflenwi, yn cynllunio, yn neilltuo adnoddau ac yn blaenoriaethu, yn datblygu rolau, cyfrifoldebau a modelau cyflenwi eglur, ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian.
- Mae gwasanaethau iechyd yn meithrin diwylliant o ddysgu a hunanymwybyddiaeth, ac uniondeb personol a phroffesiynol.

Caiff y Safonau Iechyd a Gofal eu nodi'n llawn yn y tudalennau a ganlyn.

Mae pob Safon Iechyd a Gofal yn disgrifio'r canlyniad lefel uchel sy'n ofynnol i gyfrannu at ansawdd a diogelwch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac a danategir gan lywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd.

Mae tair adran o fewn pob thema: disgrifiad o egwyddor allweddol y thema, yr hyn y mae'n ei olygu i unigolyn pan fo'r safonau o fewn y themâu'n cael eu cyrraedd, a'r meini prawf ar gyfer pob safon. Caiff maen prawf ei ddiffinio fel egwyddor neu safon y gellir ei defnyddio i farnu neu benderfynu ynghylch rhywbeth

Mae ystod o ganllawiau ategol i helpu gwasanaethau i gyrraedd pob safon ar gael yn e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru. (www.wales.nhs.uk/governance-emanual)

Yr egwyddor o ran cadw'n iach yw sicrhau bod pobl yng Nghymru'n meddu ar wybodaeth dda i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Bydd sefydliadau a phobl yng Nghymru'n cydweithio i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Bydd pobl yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd, eu hymddygiad a'u lles eu hunain sy'n cael effaith gadarnhaol drwy gydol eu bywydau.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safon o fewn y thema hon ei chyrraedd:

- Byddaf yn byw bywyd hir gan fod yn iach ac egnïol.
- Bydd fy mhiant yn cael dechrau iach mewn bywyd.
- Rwy'n gallu cael mynediad at y cymorth a'r wybodaeth y mae eu hangen arnaf, pan fo'u hangen arnaf, yn y ffordd yr wyf yn dymuno'u cael.

Safon 1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd

Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofalmwyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae pobl yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys cymorth cymunedol a chymorth i bobl o grwpiau gwarchoddedig.
- Mae pobl yn cael eu helpu i ymgysylltu, cyfranogi a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gymdeithas.
- Mae pobl yn cael eu helpu i fod yn iach, yn ddiogel ac yn hapus, ac i fyw bywyd egnïol.
- Mae plant yn cael dechrau da, iach, diogel a chefnogol mewn bywyd.
- Mae gofalmwyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth.
- Mae pobl yn cael eu helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u hiechyd, eu hymddygiad a'u lles sy'n effeithio ar eu hiechyd nhw ac iechyd a lles eu plant.
- Mae'r arfer o fwydo ar y fron yn cael ei hybu a'i gefnogi.

- Mae'r arfer o roi'r gorau i ysmegu ac amgylcheddau di-fwg yn cael eu hybu a'u cefnogi.
- Mae pobl yn cael eu helpu i osgoi niwed i'w hiechyd a'u lles trwy wneud dewisiadau iach a derbyn cyfleoedd i atal afiechyd.
- Eir ati'n weithredol i hybu gweithleoedd a chymunedau iach a diogel.
- Eir ati'n weithredol i hybu iechyd a lles staff.
- Mae systemau, adnoddau a chynlluniau ar waith i adnabod a gweithredu ar faterion arwyddocaol o ran iechyd y cyhoedd er mwyn atal a rheoli clefydau trosglwyddadwy a darparu rhaglenni imiwneiddio ynghyd â rhaglenni effeithiol i sgrinio a chanfod clefydau.
- Mae asesiadau o anghenion a chynghor ynghylch iechyd y cyhoedd yn goleuo cynlluniau, polisiau ac arferion gwasanaethau.
- Mae gan wasanaethau iechyd systemau a phrosesau i chwarae eu rhan yn y gwaith o leihau anghydraddoldebau a diogelu a gwella iechyd a lles eu poblogaeth leol.
- Mae perthnasoedd a'r modd y dyrennir cyfrifoldebau rhwng yr amryw sefydliadau â chyfrifoldebau am iechyd y cyhoedd yn eglur ac fe weithredir arnynt.

Yr egwyddor o ran gofal diogel yw sicrhau bod pobl yng Nghymru'n cael eu diogelu rhag niwed ac yn cael eu helpu i ddiogelu eu hunain rhag niwed hysbys.

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn flaenoriaeth. Mae gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ofal a chymorth diogel yn mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o fod yn fwy dibynadwy ac o wella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth y mae'n ei gyflenwi. Er bod darparu gofal yn cynnwys elfen gysylltiedig o risg o niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau, mae gofal diogel yn adnabod, yn atal neu'n lleihau niwed diangen neu bosibl. Felly bydd pobl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed y gellir ei osgoi trwy ofal, triniaeth a chymorth priodol.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safonau o fewn y thema hon eu cyrraedd:

- Rwy'n cael fy helpu i ddiogelu fy iechyd fy hun ac iechyd fy nheulu.
- Rwy'n cael fy nghadw'n ddiogel ac yn cael fy niogelu rhag niwed y gellir ei osgoi trwy ofal, triniaeth a chymorth priodol.
- Rwy'n cael gwasanaeth diogel, o safon uchel tra mod o dan ofal y GIG.

Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Defnyddir arfer gorau wrth asesu, rheoli a lliniaru risg sy'n tynnu ar brofiadau pobl o'r gwasanaeth.
- Mae trefniadau rheoli risg ac iechyd a diogelwch wedi'u sefydlu ym mhob lleoliad gofal iechyd ac yn cael eu monitro i sicrhau gwelliant parhaus.
- Mae gwybodaeth gyfoes a pherthnasol ar gael yn rhwydd i adnabod, blaenoriaethu a rheoli risgiau go iawn a allai achosi niwed difrifol.
- Gweithredir ar hysbysiadau diogelwch, rhybuddion ac unrhyw gyfathrebiadau o'r fath.
- Mae mesurau ar waith i atal niwed difrifol neu farwolaeth lle mae'r rheolaethau gofynnol yn hysbys.
- Mae materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd megis diogelwch, dyluniad diogel a chynaliadwy, arwyddion eglur, cynllunio, preifatrwydd, diogelwch tân, iechyd a diogelwch cyffredinol sy'n gysylltiedig ag oedran, a hygyrchedd i bobl anabl yn cael eu hystyried.

- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau i ddarparu amgylcheddau diogel sydd:
 - yn hygyrch
 - yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda
 - yn addas ar gyfer y diben
 - yn ddiogel
 - yn diogelu preifatrwydd
 - yn gynaliadwy
- Ceir cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a chanllawiau ategol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiadau risg, bod â chynlluniau at argyfwng sy'n gyfredol ac wedi'u profi a threfniadau parhad busnes a ddatblygwyd trwy gydweithio ag asiantaethau partner. Bydd hyn yn sicrhau y darperir ymateb cadarn ac yn sicrhau parhad gwasanaethau iechyd hanfodol os ceir digwyddiad mawr neu argyfwng.

Safon 2.2 Atal Briwiau Pwysau a Niwed i Feinweoedd

Mae pobl yn cael eu helpu i ofalu am eu croen a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysau a niwed i feinweoedd.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae pobl yn cael eu hasesu o ran y risg o friwiau pwysau a niwed i feinweoedd ac os ystyrir bod risg iddynt, maent yn cael asesiad pellach ac mae cynllun gofal yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith.
- Mae pobl yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r risgiau o friwiau pwysau a niwed i feinweoedd a dangosir iddynt sut i'w hosgoi. Maent hwy a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn cael eu hannog i ddefnyddio gweithdrefnau gofal priodol ac yn cael eu cynghori ynghylch y rhain, gan gynnwys cyngor maethol.
- Mae gwelyau, cadeiriau ac offer arall priodol ar gael i leihau'r risgiau o friwiau pwysau a niwed i feinweoedd ac mae offer ataliol arbenigol megis matresi a chlustogau arbennig ar gael hefyd os oes eu hangen. Mae'r holl offer yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n gywir.
- Anogir technegau symud cywir, gan gynnwys troi'n rheolaidd a hunanofal priodol, i helpu pobl i osgoi briwiau pwysau a niwed i feinweoedd, gan gynyddu eu lles, eu hannibyniaeth a'u hurddas.
- Mae asesiadau risg yn bodoli i ganfod a yw person yn wynebu risg, mae croen pobl yn cael ei archwilio o leiaf unwaith y dydd, a gorau oll os gwneir hynny pan roddir sylw i'w hylendid personol.

Safon 2.3 Atal Cwypïadau

Mae pobl yn cael eu hasesu o ran y risg o gwmpo a gwneir pob ymdrech i atal cwypïadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae strategaethau atal cwypïadau'n cael eu gweithredu yn seiliedig ar safonau cenedlaethol a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae pobl yn cael eu hasesu i ganfod risgiau i'w diogelwch hwy eu hunain a diogelwch pobl eraill. Mae cynllun ar gyfer rheoli risg yn cael ei gytuno rhwng y sawl sy'n cael gofal a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Mae staff yn cael cymorth priodol o ran gwybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth i sicrhau bod pobl a'u gofalwyr yn ddiogel.
- Mae pobl yn cael eu hannog i ddatblygu neu gynnal y lefel o annibyniaeth y maent yn ei dymuno, gan daro cyfrifoldeb cyfrifol rhwng risg a diogelwch.
- Mae pobl yn gallu galw am help yn rhwydd drwy'r amser, gan ddefnyddio ffôn, cloch neu ddull cyfleus arall. Os nad ydynt yn gallu gwneud hynny bydd eu hanghenion yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae strwythurau sefydliadol a systemau rheoli priodol ar waith i atal a rheoli heintiau a dadhalogi.
- Mae amgylcheddau ffisegol yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau i safon sy'n hwyluso'r gwaith o atal a rheoli heintiau ac yn lleihau'r risg o heintiau.

- Mae gwybodaeth addas a chywir am heintiau ar gael.
- Mae gwybodaeth addas, amserol a chywir am heintiau'n cael ei darparu ar gyfer unrhyw un sy'n gysylltiedig â rhoi cymorth pellach neu ofal nyrsio/meddygol pan fo unigolyn yn cael ei symud o un sefydliad i'r llall neu o fewn yr un sefydliad.
- Mae staff a gyflogir i ddarparu gofal ym mhob lleoliad yn chwarae rhan lawn yn y broses o atal a rheoli heintiau.
- Darperir cyfleusterau ynysu digonol i gefnogi gwaith effeithiol i atal a rheoli heintiau.
- Mae polisiâu ar atal a rheoli heintiau ar waith ac ar gael yn rhwydd i'r holl staff.
- Cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol mae staff yn rhydd o heintiau ac yn cael eu diogelu rhag cysylltiad â heintiau y gellir eu dal neu eu trosglwyddo yn y gwaith.
- Mae staff yn cael eu hyfforddi a'u haddysgu'n briodol mewn atal a rheoli heintiau yng nghyd-destun darparu gofal iechyd.
- Mae systemau, polisiâu a gweithdrefnau addas a chynaliadwy ar waith fel bod dyfeisiau meddygol yn cael eu dadhalogi gan staff cymwys mewn amgylchedd priodol.
- Mae cleifion ac ymwelwyr yn cael eu helpu i gyrraedd a chynnal safonau hylendid uchel.
- Mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer gwahanu, trafod a chludo gwastraff, gan gynnwys meinweoedd dynol, a'i waredu wedyn yn briodol ac yn sensitif.

Safon 2.5 Maethiad a Hydradiad

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae anghenion maethol pobl a'u gallu corfforol i fwyta ac yfed yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu. Cânt eu hadolygu bob hyn a hyn fel y bo'n briodol a'u hatgyfeirio at wasanaethau dietegol fel y bo angen i gael cyngor a chymorth arbenigol.

- Mae pobl yn cael dewis o fwyd a diod sy'n cael ei baratoi'n ddiogel ac sy'n diwallu anghenion maethol, therapiwtig, crefyddol a diwylliannol pawb; ac sydd ar gael 24 awr y dydd.
- Anogir pobl i fwyta prydau maethlon, amrywiol, cytbwys, a gaiff eu paratoi mewn modd hylan a'u gweini ar amseroedd rheolaidd.
- Mae bwyd a diod yn cael eu gweini mewn lleoliad derbyniol, gyda chyn lleied â phosibl o darfu, ac maent ar y tymheredd cywir ac yn cael eu cyflwyno'n ddeniadol. Mae pobl yn cael profiad bwyta cadarnhaol.
- Mae gofalmwyr ac aelodau o'r teulu sy'n dymuno rhoi cymorth i bobl yn ystod prydau bwyd yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud hynny.
- Os caiff pryd bwyd ei golli, cynigir bwyd arall a/neu fyrbrydau a gellir cael diodydd unrhyw bryd.
- Mae dŵr yfed ffres ar gael drwy'r amser, ac anogir pobl i yfed dŵr a hylifau priodol trwy gydol y dydd er mwyn ateb eu gofynion o ran hydradiad, ac eithrio pan fo angen cyfyngiadau fel rhan o driniaeth.
- Mae pobl yn cael dietau therapiwtig yn unol â'u hanghenion meddygol.
- Os yw bwyta a/neu yfed yn achosi anawsterau i bobl, maent yn cael cymorth prydlon i fwyta neu yfed, anogaeth a chymhorthion neu gymorth priodol.
- Mae pobl ag anawsterau llyncu'n cael eu hasesu gan therapydd iaith a lleferydd a lle y bo angen rhoddir hyfforddiant i gynorthwyo pobl i lyncu bwyd neu ddiod yn ddiogel.
- Rhoddir cymorth i bobl ac arnynt angen cymorth maethol artiffisial trwy ddulliau enterol neu barenterol.
- Lle darperir bwyd a diod, cynigir dewis o fwyd a diod, a'r rheiny'n cael eu paratoi'n ddiogel ac yn diwallu anghenion maethol, therapiwtig, crefyddol a diwylliannol pawb, ac ar gael 24 awr y dydd.

Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, canllawiau rheoleiddiol a phroffesiynol a chanllawiau lleol ar gyfer pob agwedd ar reoli meddyginiaethau.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn gymwysedig, wedi'u cofrestru gyda'u priod gyrff rheoleiddio ac maent yn ffit i ymarfer o ran rhagnodi, paratoi a rhoi meddyginiaethau o fewn eu cymhwysedd proffesiynol ac mewn modd sy'n briodol i anghenion y claf.
- Ceir cyngor a gwybodaeth amserol, hygyrch a phriodol ynghylch meddyginiaethau ar gyfer cleifion, gofalwyr a staff. Mae cleifion yn cael digon o wybodaeth i ddiwallu eu hanghenion ynghylch diben eu meddyginiaeth a sut i'w defnyddio'n gywir ac opsiynau eraill o ran triniaeth. Mae'r holl gleifion yn cael cyfle i drafod a chytuno ar eu cynllun triniaeth.
- Adroddir ar adweithiau anffafriol i gyffuriau a digwyddiadau anffafriol sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth ac fe ymchwilir iddynt lle y bo'n briodol.

Safon 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau gan gynnwys:
 - Gweithdrefnau Amddiffyn Plant a Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Cymru Gyfan.
 - Deddf Iechyd Meddwl 1983 mewn perthynas â phobl y gellir eu rhoi dan gadwad, a Deddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

- Mae'n amlwg bod gwasanaethau a phrosesau diogelu'n cael eu sicrhau ar draws pob lefel yn y sefydliad.
- Mae trefniadau gweithio a chydweithredu amlbroffesiwn ac amlasiantaeth effeithiol yn bodoli a'r rheiny'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Mae staff yn cael eu hyfforddi i adnabod a gweithredu ar faterion a phryderon, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a rhannu arfer da a gwersi a ddysgwyd.
- Mae pobl yn cael eu hysbysu sut i wneud eu pryderon yn hysbys.
- Rhoddir blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau sy'n galluogi plant ac oedolion agored i niwed i fynegi eu hunain a chael gofal trwy gyfrwng y Gymraeg am fod eu gofal a'u triniaeth yn gallu dioddef pan nad ydynt yn cael eu trin yn eu hiaith eu hunain. (Cânt eu hadnabod fel grŵp y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn Mwy na Geiriau).
- Mae trefniadau addas yn bodoli ar gyfer pobl sy'n rhoi eu diogelwch hwy a diogelwch pobl eraill mewn perygl i atal cam-drin ac esgeuluso.
- Mae risg yn cael ei reoli mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl i deimlo bod ganddynt reolaeth ar eu bywydau.
- Mae trefniadau'n bodoli i ymateb yn effeithiol i amgylchiadau newidiol ac i gynnal adolygiad rheolaidd o'r modd y cyflawnir canlyniadau personol.

Safon 2.8 Rheoli Gwaed

Mae gan bobl fynediad amserol at gyflenwad diogel a digonol o waed, cynhyrchion gwaed a chydrannau gwaed pan fo'u hangen.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae gan wasanaethau iechyd systemau llywodraethu cadarn er mwyn cynnal cyflenwad digonol diogel o waed, cydrannau gwaed a chynhyrchion gwaed i gefnogi defnydd amserol, priodol ac effeithiol i bawb.
- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol ar gyflenwi a gwneud defnydd priodol o waed, cydrannau gwaed a chynhyrchion gwaed.

- Mae cynlluniau a systemau effeithiol ar waith i fynd ati'n weithredol i reoli stoc, lleihau gwastraff a chynllunio'n effeithiol ar gyfer prinderau.
- Mae rhaglen arloesol barhaus o addysg, hyfforddiant ac asesiadau cymhwysedd yn bodoli ar gyfer pob aelod o staff sy'n cyfrannu at y broses trallwysu gwaed yn unol â'r strategaeth genedlaethol.
- Mae prosesau ar waith sy'n gwella diogelwch y broses trallwysu gwaed ac yn rhoi cymorth i adnabod pob digwyddiad, a phob adwaith neu ddigwyddiad anffafriol sy'n ymwneud â gwaed, yn ogystal ag adrodd ar y rhain a rhannu'r gwersi a ddysgwyd ohonynt.
- Ceir dull cydweithredol o reoli gwaed yn y ffordd orau bosibl.

Safon 2.9 Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol

Mae gwasanaethau iechyd yn sicrhau eu bod yn caffael, yn defnyddio ac yn gwaredu dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.
- Mae prosesau'n sicrhau bod offer a dyfeisiau'n cael eu cynnal a'u cadw, eu glanhau a'u graddnodi yn unol â chanllawiau'r gweithgynhyrchwyr, gan sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y defnydd y'u bwriadwyd ar ei gyfer ac ar gyfer yr amgylchedd y cânt eu defnyddio ynddo.
- Mae rhaglen barhaus o hyfforddiant ac asesiadau cymhwysedd yn bodoli ar gyfer staff a defnyddwyr.
- Mae trefniadau hysbysu a rheoli amserol yn bodoli i fynd i'r afael ag unrhyw nam ar ddyfais, offer neu system a ddefnyddir neu sydd mewn stoc, gan gynnwys unrhyw rybudd neu hysbysiadau rhybuddio a gyhoeddwyd gan asiantaethau priodol megis MHRA.
- Mae systemau, polisiau a gweithdrefnau addas a chynaliadwy yn bodoli fel bod dyfeisiau meddygol yn cael eu dadhalogi gan staff cymwys mewn amgylchedd priodol.

Yr egwyddor o ran gofal effeithiol yw bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mor lleol â phosibl ac yn cael eu galluogi i gyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiannus.

Os yw pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir byddant wedi'u grymuso i wella neu reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain. Rhaid i ymyriadau i wella iechyd pobl fod yn seiliedig ar arfer gorau, a hwnnw'n deillio o ymchwil o ansawdd da. Dylai data ynghylch cyflenwi gofal gael ei gadw mewn cofnodion strwythuredig, cywir a hygyrch. Bydd y gallu i reoli data a gwybodaeth ac i gyfathrebu'n effeithiol yn cyfrannu at gyflenwi gofal diogel ac effeithiol.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safonau o fewn y thema hon eu cyrraedd:

- Mae gofal a chymorth iechyd yn cael eu cyflenwi yn fy nghartref neu mor agos at fy nghartref â phosibl.
- Rwy'n cael y gofal a'r cymorth cywir i naill ai gwella neu reoli fy iechyd a'm lles fy hun.
- Mae ymyriadau i wella fy iechyd yn seiliedig ar ymchwil sydd o ansawdd da ac yn amserol ac arfer gorau.

Safon 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae pobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed y gellir ei osgoi trwy ofal, triniaeth, gwybodaeth a chymorth priodol a chanfod risgiau'n gynnar.
- Mae pobl yn cael eu helpu i ddiogelu eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain ac mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n effeithiol.
- Mae arfer yn esblygu i adlewyrchu tystiolaeth newydd ac mae'n darparu ymateb effeithlon ac effeithiol i hybu gofal diogel a chlinigol effeithiol.
- Mae systemau a phrosesau'n cydymffurfio â chyfarwyddebau diogelwch a chlinigol mewn ffordd amserol, gan gynnwys rhybuddion.
- Mae systemau'n sicrhau bod diffyg cydymffurfio ag arfer gorau neu achos o wroddi wrth arfer gorau yn cael ei gofnodi'n briodol a'i archwilio a bod unrhyw risgiau a adnabuwyd yn cael eu rheoli'n briodol.

- Mae pobl yn cael gwasanaeth diogel ac effeithiol o safon uchel tra'u bod o dan ofal y GIG a hwnnw'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt gan gynnwys y rhai a ddiffinnir gan Gynlluniau Cyflenwi cyflwr-benodol, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), Atebion Diogelwch Cleifion GIG Cymru a chyrrff proffesiynol.
- Mae arfer yn aros gyfuwch ag arfer gorau, canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol, technolegau newydd a ffyrdd arloesol o weithio.

Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol

Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau iaith sy'n diwallu eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal.
- Mae cyfathrebu agored a gonest yn cael ei bwysleisio yn ysbryd cydgynhyrchu.
- Cymerir gofal arbennig wrth gyfathrebu â'r rhai y gall fod nam dros dro neu nam parhaol ar eu galluedd meddyliol.
- Mae anghenion iaith a chyfathrebu'n cael eu diwallu ar gyfer pobl ag anghenion gofal penodol gan gynnwys: anabledau dysgu, dementia, strôc, nam ar y synhwyrau, problemau datblygiadol niwrolegol ac anaf i'r ymennydd.
- Mae cyfathrebu effeithiol, hygyrch, priodol ac amserol yn cael ei deilwra i anghenion pob unigolyn a gwneir addasiadau rhesymol fel a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- Defnyddir dulliau cyfathrebu ar-lein ac all-lein mewn ieithoedd amrywiol a fformatau hygyrch.
- Mae cyfathrebu'n briodol i oedran ac yn ystyried gallu pobl i gymryd rhan mewn sgysiau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

- Rhoddir cymorth i ofalwyr ac eiriolwyr sydd yn eu tro'n cefnogi anghenion pobl ag anghenion cyfathrebu.
- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau i sicrhau dulliau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol, hygyrch, priodol ac amserol. Mae diben, effeithiolrwydd, dulliau, diogelwch a phriodoldeb cyfathrebu'n cael eu hystyried yn fewnol ac yn allanol gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff, ac o ran cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn defnyddio ystod o gyfryngau a fformatau.

Safon 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi

Mae gwasanaethau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus trwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil a sicrhau ei bod yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae galluedd a gallu lleol yn cael eu datblygu i helpu a galluogi timau i adnabod a mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella lleol, gan gynnwys cyfranogi mewn archwiliadau a methodolegau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd cydnabyddedig.
- Mae cynnydd yn cael ei fesur, ei gofnodi ac mae gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu.
- Mae egwyddorion a gofynion y Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cymhwyso'n gyson.
- Mae ymchwil ac arloesi'n cael effaith uniongyrchol ar wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, gan sicrhau gwell canlyniadau iechyd a lles i bobl, a gwella'r profiad o ofal.
- Ceir dull strwythuredig o hyrwyddo a chefnogi ymchwil ac arloesi a chaiff y rhain eu cymhwyso mewn arfer o ddydd i ddydd.
- Ceir arweinyddiaeth weladwy, eglur a dull cydweithredol cryf gyda phartneriaid mewn prifysgolion ac yn y diwydiant.
- Mae ansawdd cofnodion clinigol yn cael ei wella trwy weithredu safonau sy'n ei gwneud yn bosibl aildefnyddio data ar gyfer ymchwil.

Safon 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu

Mae gwasanaethau iechyd yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir, yn ddilys, yn ddibynadwy, yn amserol, yn berthnasol, yn ddealladwy ac yn gyflawn wrth gyflenwi, rheoli, cynllunio a monitro gwasanaethau diogel o safon uchel.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau iechyd systemau, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, i sicrhau y cesglir, y rhennir ac yr adroddir ar ddata a gwybodaeth o safon uchel o fewn fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae systemau gwybodaeth diogel yn cael eu datblygu yn unol â deddfwriaeth ac o fewn fframwaith llywodraethu cadarn.
- Mae prosesau'n bodoli i weithredu a rheoli gwybodaeth a data'n effeithiol, i gynnal parhad busnes a chefnogi a hwyluso gofal am gleifion a threfniadau cyflenwi.
- Mae data a gwybodaeth yn gywir, yn ddilys, yn ddibynadwy, yn amserol, yn berthnasol, yn ddealladwy ac yn gyflawn.
- Defnyddir gwybodaeth i adolygu, asesu a gwella gwasanaethau.
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda phartneriaid perthnasol gan ddefnyddio protocolau pan fo angen i ddarparu gofal da ar gyfer pobl.

Safon 3.5 Cadw Cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae ansawdd cofnodion papur ac electronig wedi cael ei wella trwy fabwysiadu safonau Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol ar gyfer cynnwys a strwythur clinigol cofnodion cleifion.
- Mae atebolrwydd eglur am gadw cofnodion yn cefnogi barnau a phenderfyniadau clinigol effeithiol.
- Mae gwybodaeth yn cael ei chyfleu a'i rhannu'n effeithiol rhwng aelodau o'r tîm gofal iechyd ambroffesiwn a'r claf.
- Mae'r drefn cadw cofnodion yn cefnogi archwiliadau clinigol, ymchwil, y broses dyrannu adnoddau a'r broses cynllunio perfformiad.
- Mae tystiolaeth yn dangos sut y cafodd penderfyniadau sy'n ymwneud â gofal cleifion eu gwneud.
- Mae adnabod risgiau'n ei gwneud yn bosibl canfod cymhlethdodau'n gynnar.
- Mae'r drefn cadw cofnodion yn cefnogi'r broses o gyflenwi gwasanaethau, gofal ar gyfer cleifion a chyfathrebiadau.
- Mae cofnodion yn cael eu dylunio, eu paratoi, eu hadolygu a'u gwneud yn hygyrch fel eu bod yn diwallu'r anghenion gofynnol.
- Mae cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel, yn cael eu cynnal, gellir eu hadfer yn brydlon ac maent yn cael eu gwaredu'n briodol.
- Mae cofnodion yn gywir, wedi'u diweddarau, yn gyflawn, yn ddealladwy ac yn gyfoes yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol; ac yn cael eu rhannu pan fo'n briodol.
- Mae cofnodion personol pobl yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac maent ar gael iddynt. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, maent yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.
- Mae gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu'n cael eu cefnogi gan gofnodion cleifion strwythuredig, cywir a hygyrch sy'n dogfennu'r sgysiau rhwng pobl a gweithwyr iechyd proffesiynol ac mae'r penderfyniadau dilynol a'r camau gweithredu a gymerir yn adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar y sail dystiolaeth.

Yr egwyddor o ran gofal gydag urddas yw bod pobl yng Nghymru'n cael eu trin ag urddas a pharch ac yn trin eraill yr un fath. Rhaid i hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus gael eu diogelu drwy'r amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion a galluoedd yr unigolyn.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safonau o fewn y thema hon eu cyrraedd:

- Rwy'n cael gwasanaeth o ansawdd ym mhob lleoliad gofal.
- Mae fy llais yn cael ei glywed ac mae gwasanaethau'n gwrando ar yr hyn yr wyf yn ei ddweud.
- Rwy'n profi system ofal lle mae'r holl gyfranogwyr yn cael eu trin â thosturi, urddas a pharch.

Safon 4.1 Gofal Gydag Urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae pobl yn cael eu trin â pharch, cwrteisi a moesgarwch.
- Mae pobl yn gallu cael mynediad at gyngor rhad-ac-am-ddim ac annibynnol er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau am eu gofal a'u ffordd o fyw.
- Mae unigolion yn cael eu cyfarch gan ddefnyddio'r enw sydd orau ganddynt.
- Mae'r gwasanaeth yn ymateb yn sensitif i anghenion o ran y Gymraeg.
- Mae cyfrinachedd, gwyleidd-dra, gofod personol a phreifatrwydd yn cael eu parchu yn enwedig mewn wardiau ysbytai, mannau cyhoeddus a derbynfeydd.
- Mae'r gwasanaeth yn gwrando'n weithredol ar deimladau, anghenion a phroblemau pobl, yn eu cydnabod ac yn eu parchu.
- Cydnabyddir pob pob gofal yn gyfannol ac yn cynnwys dimensiwn ysbrydol, bugeiliol a chrefyddol.
- Mae gwybodaeth a gofal wastad yn cael eu darparu â thosturi a sensitifrwydd, gan sicrhau bod gan bobl a'u gofalwyr y rhyddid i weithredu a phenderfynu ar sail cyfleoedd i gyfranogi ac ar wybodaeth eglur a chynhwysfawr.
- Rhoddir ystyriaeth i amgylcheddau a chyfforddusrwydd pobl er mwyn iddynt allu gorffwys a chysgu.

- Mae pobl yn cael eu helpu i fod mor gyfforddus a di-boen ag y mae eu cyflwr a'u hamgylchiadau'n caniatáu.
- Mae pobl yn cael eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl o ran gofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed a'u hewinedd.
- Mae pobl yn cael eu helpu i gynnal ceg lân, iach, gyfforddus a dannedd a gymiau di-boen, sy'n eu galluogi i weithredu yn eu ffordd arferol (gan gynnwys bwyta a siarad) ac yn atal problemau cysylltiedig.
- Mae gofal ymataliaeth yn briodol ac yn ddisylw a rhoddir cymorth prydlon fel y bo'r angen gan ystyried anghenion penodol a phreifatrwydd pobl.
- Mae pobl yn cael eu helpu i deimlo'n hyderus i siarad am bob agwedd ar eu gofal gan gynnwys meysydd sensitif megis disgwyliad oes. Mae rhag-gynllunio gofal, gofal diwedd oes a diwallu anghenion pobl sy'n marw a sicrhau marwolaeth gystal ag sy'n ymarferol i'r unigolyn a'i deulu'n rhan allweddol o ofal gydag urddas.

Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae hawliau ac amgylchiadau unigol pobl yn cael eu parchu fel bod ganddynt lais a rheolaeth, gan eu grymuso i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu grymuso i fynegi eu hanghenion ac maent yn gallu cyfranogi'n llawn yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Lle mae angen mae pobl yn cael mynediad at gyfieithydd neu aelod o staff â sgiliau iaith priodol.
- Mae anghenion iechyd, personol a gofal cymdeithasol yn cael eu hasesu a'u nodi mewn cynlluniau gofal sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

- Darperir cymorth neu gymhorthion arbenigol ar gyfer y rhai ag anawsterau siarad, gweld neu glywed, anghenion arbennig megis problemau gyda’u cof neu anableddau dysgu, gan eu galluogi i dderbyn ac ymateb i wybodaeth.
- Mae’r gwasanaeth yn ymgynghori â phobl ynghylch unrhyw driniaeth a gofal y maent yn mynd i’w gael ac yn rhoi cyfleoedd i drafod a chytuno ar yr opsiynau.
- Mae cofnodion personol pobl yn cael eu cadw’n ddiogel, eu diweddarau’n rheolaidd ac maent ar gael iddynt.
- Cymerir amser i wrando ar unrhyw gwestiynau a phryderon sydd gan yr unigolyn neu ei berthnasau ac i ymateb yn weithredol iddynt, gan drin eu gwybodaeth yn gyfrinachol.
- Mae’r gwasanaeth yn cael caniatâd dilys, yn unol â chanllawiau arfer gorau; ac mae’n asesu ac yn gofalu am bobl yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac, os yn briodol, Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid 2009.
- Darperir gwybodaeth amserol a hygyrch am gyflyrau a gofal pobl, eu meddyginiaeth, triniaeth a threfniadau cymorth.

Yr egwyddor o ran gofal amserol yw bod gan bobl fynediad amserol at wasanaethau yn seiliedig ar angen clinigol a'u bod yn chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal. Os nad yw unigolion yn cael gofal amserol gall hynny gael effaith enfawr ar eu profiad o wasanaethau iechyd a'u gallu i gyflawni'r canlyniadau iechyd gorau. Er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl dylai cyflyrau pobl gael eu diagnosio'n brydlon a chael eu trin yn unol ag angen clinigol.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safon o fewn y thema hon ei chyrraedd:

- Mae gennyf fynediad rhwydd ac amserol at wasanaethau gofal sylfaenol.
- Er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl, mae fy nghyflwr yn cael ei ddiagnosio'n gynnar ac yn cael ei drin yn unol ag angen clinigol.

Safon 5.1 Mynediad Amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae canlyniadau iechyd pobl yn cael eu monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal mewn ffordd amserol.
- Darperir pob agwedd ar ofal, gan gynnwys atgyfeiriadau, asesiadau, diagnosis, triniaeth, trosglwyddo gofal a rhyddhau, gan gynnwys gofal diwedd oes, mewn ffordd amserol sy'n gyson ag amserlenni, llwybrau ac arfer gorau cenedlaethol.
- Mae cyflyrau'n cael eu diagnosio'n gynnar ac yn cael eu trin yn unol ag angen clinigol.
- Rhoddir gwybodaeth a chymorth hygyrch i sicrhau bod pobl yn chwarae rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.
- Ceir cydymffurfiaeth â Fframwaith Canlyniadau a Chyflenwi'r GIG o ran canlyniadau sy'n ymwneud â gofal amserol.

Yr egwyddor o ran gofal unigol yw bod pobl yn cael eu trin fel unigolion, gan adlewyrchu eu hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain. Mae gan bawb sy'n darparu gofal gyfrifoldeb i sicrhau bod pa bynnag ofal y maent yn ei ddarparu'n cynnwys sylw i hawliau dynol sylfaenol. Lle nad yw pobl yn gallu sicrhau'r hawliau hyn iddynt hwy eu hunain, pan nad ydynt yn gallu mynegi eu hanghenion a'u dyheadau o ganlyniad i nam ar y synhwyrâu, problem iechyd meddwl, anabledd dysgu, anhawster cyfathrebu neu unrhyw reswm arall, rhaid darparu mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Mae gan bob unigolyn anghenion a dyheadau unigryw. Mae anghenion a dyheadau unigolion yn amrywio gyda ffactorau megis oedran, rhyw, diwylliant, crefydd ac amgylchiadau personol, ac mae anghenion unigolion yn newid dros amser. Mae parchu pobl fel unigolion yn rhan annatod o bob gofal.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safonau o fewn y thema hon eu cyrraedd:

- Mae anghydraddoldebau a allai fy atal rhag byw bywyd iach wedi'u lleihau.
- Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried.
- Rwy'n cael gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg os oes eu hangen arnaf.

Safon 6.1 Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth

Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut y maent yn gofalu amdanynt hwy eu hunain gan fod cynnal annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae pobl yn cael eu helpu i ymgysylltu â'u gofal a chwarae rhan ynddo ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gymdeithas.
- Mae pobl yn cael eu trin gyda'r ddealltwriaeth bod ganddynt yr hawl i fod y bobl ydynt, i gael eu deall, eu hystyried a'u cydnabod fel unigolyn.
- Mae digon o amser ar gael i helpu ac annog pobl i ofalu amdanynt hwy eu hunain, a helpu gofalwyr lle nad yw unigolion yn gallu gofalu amdanynt hwy eu hunain.
- Rhoddir cymorth i sicrhau bod gan bobl yr hawl i wneud penderfyniadau am eu bywyd.
- Bydd y gofal y mae pobl yn ei gael yn parchu eu dewisiadau o ran gwneud y gorau o'u gallu a'u hawydd i ofalu amdanynt hwy eu hunain.
- Asesu parhaus a chynlluniau gofal unigol sy'n cynnwys yr holl bobl sy'n berthnasol i ofal yr unigolyn, yw'r sail i'r cynllun o weithgareddau a gofal. Mae hwn yn ystyried gofynion, cryfderau, galluedd a photensial yr unigolyn.

- Rhaid i gleifion sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sy'n ddarostyngedig i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 fod â chynllun gofal a thriniaeth statudol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac mae'n rhaid iddo gael ei adolygu'n rheolaidd.
- Lle y bo'n bosibl, mae'r gwasanaeth yn dangos i bobl sut i wneud pethau mewn ffordd wahanol i'w helpu i fod yn annibynnol.
- Os yn briodol, mae pobl yn cael cynnig offer i'w helpu i gerdded, symud, bwyta, clywed a gweld. Mae'r offer hwn yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac os caiff ei ddarparu ar gyfer unigolyn penodol caiff yr unigolyn ei gadw ar gyfer ei ddefnydd ei hun.
- Mae gallu pobl i ofalu amdanynt hwy eu hunain yn cael ei feithrin ac mae eu hamgylchedd GIG/gofal mor hygyrch, cyfforddus a diogel â phosibl.
- Mae pobl yn cael eu hannog i fod yn egnïol gan wneud ymarfer corff priodol a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden priodol cyn belled ag y mae eu cyflwr yn caniatáu.
- Mae gweithwyr gofal iechyd yn ystyriol o anghenion ieithyddol pobl a bydd pobl yn cael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan naturiol o'u gofal. Mae'r gwasanaeth yn dangos parch tuag at hunaniaeth ddiwylliannol pobl ac mae pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg heb unrhyw rwystrau, er na fydd pawb sy'n gyfrifol am eu gofal yn siarad Cymraeg.
- Bydd gwybodaeth gyhoeddus yn hygyrch i sicrhau bod pobl yn cymryd cyfrifoldeb i gael mynediad at ofal mewn modd priodol.
- Mae trefniadau pontio effeithiol yn bodoli rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion.
- Mae anghenion iechyd, personol a chymdeithasol yn cael eu hasesu a'u disgrifio mewn cynlluniau gofal sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu cytuno gan yr unigolyn a'r bobl sy'n gofalu am yr unigolyn. Dim ond gyda chaniatâd y defnyddiwr gwasanaethau y mae'r cynllun yn cael ei rannu gydag eraill.
- Mae pobl yn cael eu helpu i gael cymorth, pan fo'i angen arnynt ac yn y ffordd y maent yn dymuno'i gael.
- Darperir cymorth i ddatblygu cymhwysedd mewn hunanofal a hybu adsefydlu ac ailalluogi; a chyflawni trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau a sefydliadau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector.
- Bydd gwasanaethau iechyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol er enghraifft y rhai sy'n gallu helpu i roi cymorth i bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Safon 6.2 Hawliau Pobl

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae anghenion unigolion yn cael eu cydnabod a'u diwallu beth bynnag fo'u hunaniaeth a'u cefndir, ac mae eu hawliau dynol yn cael eu cynnal.
- Mae gwahaniaethu'n cael ei herio, mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hybu ac mae ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau anghydraddoldebau iechyd trwy strategaethau, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, polisiâu, arferion, caffael ac ymgysylltu.
- Mae cynlluniau cydraddoldeb strategol yn cael eu cyhoeddi ac yn nodi blaenoriaethau o ran cydraddoldeb yn unol â deddfwriaeth.
- Mae gofal yn gyson ag oedran yr unigolyn sy'n cael gofal, fel y dylai pobl ifanc ag afiechydon difrifol, er enghraifft, ddisgwyl proses bontio effeithlon o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion gyda chyfathrebu da rhwng yr asiantaethau hynny.
- Mae hawliau plant yn cael eu cydnabod yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Mae hawliau pobl hŷn yng Nghymru'n cael eu cydnabod yn unol â'r Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.
- Mae anghenion ysbrydol a gofal bugeiliol pobl a'u gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u diwallu.
- Mae pobl yn cael eu hannog i barhau i ymwneud â'u teulu a'u ffrindiau ac i ddatblygu perthnasoedd gydag eraill, yn ôl eu dyheadau.

Safon 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

- Mae gwasanaethau a byrddau iechyd yn dangos sut y maent yn ymateb i brofiad defnyddwyr er mwyn gwella gwasanaethau.
- Mae partneriaid yn cyfrannu at helpu a galluogi pobl i fod yn rhan o'r broses o ddylunio, cynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- Mae gwasanaethau a byrddau iechyd yn gwrando ar lais cleifion a gofalwyr, gan gynnwys trwy ddefnyddio storïau cleifion.
- Mae'r gwasanaeth yn casglu, yn cyhoeddi ac yn gweithredu ar adborth mewn ffordd sy'n darparu golwg barhaus ar berfformiad ac yn dangos bod y gwasanaeth yn dysgu ac yn gwella.
- Mae gwelliannau i wasanaethau ar gyfer yr holl bobl yn cael eu cofnodi a'u dangos sy'n cynnwys o ganlyniad cyflawni cyfrifoldebau statudol ar gyfer plant a phobl ifanc, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r Gymraeg.
- Mae'n glir sut y mae data yr adroddwyd arno mewn arolygon ac archwiliadau cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio a'i gymhwyso.
- Mae prosesau ar waith sy'n sicrhau profiad da i bobl gan gynnwys:
 - asesu a gwerthuso profiad defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed;
 - darpariaeth i bobl sy'n llai abl i siarad drostynt hwy eu hunain;
 - cyflawni a mesur gwelliant;
 - defnyddio adborth cleifion i ddylanwadu ar newidiadau/ysgogi newidiadau i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu a threfniadau cyflenwi;
 - cydnabod dimensiwn ysbrydol, bugeiliol a chrefyddol gofal.

- Ceir cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau i ymdrin â phryderon, digwyddiadau, digwyddiadau trwch blewyn, a hawliadau fel a nodir yn y trefniadau "Gweithio i Wella".
- Hysbysir ynghylch pryderon, gweithredir arnynt ac ymatebir iddynt mewn modd priodol ac amserol ac fe ymdrinnir â hwy ac fe ymchwilir iddynt yn agored, yn effeithiol a chan y rhai sydd â sgiliau priodol i wneud hynny.
- Mae cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr yn cael cynnig cymorth gan gynnwys eiriolaeth a lle y bo'n briodol camau i wneud iawn am gamweddau.
- Mae gwasanaethau iechyd yn agored ac yn onest gyda phobl pan fo rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u gofal a'u triniaeth.
- Rhoddir cymorth priodol i staff iechyd ac mae'r broses o ddysgu a chyflenwi gwasanaethau'n gwella trwy rannu gwersi o adolygiadau lleol a chenedlaethol.

Yr egwyddor yw bod pobl yng Nghymru'n gallu dod o hyd i wybodaeth am y modd y darperir adnoddau ar gyfer eu GIG a gwneud defnydd gofalus o'r adnoddau hynny. Mae gan wasanaethau iechyd yng Nghymru gyfrifoldeb eglur i sicrhau defnydd effeithlon a darbodus o adnoddau, ac mae angen i bobl yng Nghymru ddeall sut y caiff adnoddau eu defnyddio a sut y gellir eu gwella. Mae'r safon llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon yn nodi sut y dylid dangos hyn.

Adnodd arwyddocaol yw gweithlu'r GIG yng Nghymru sy'n cynnwys yr holl bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth, iddo neu gydag ef ac maent i gyd yn rhan annatod o gyflenwi gwasanaeth sydd o safon uchel, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ddiogel. Rhaid i wasanaethau iechyd allu sicrhau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a'u gweithlu bod pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cyfrannu at wasanaeth diogel o safon uchel. Rhaid i'r gwasanaeth iechyd bennu'r gofynion o ran y gweithlu er mwyn darparu gofal a chymorth o safon uchel. Rhaid i'r aelodau unigol o weithlu fod yn fedrus ac yn gymwys a rhaid i'r gweithlu cyfan gael ei gynllunio, ei drefnu a'i reoli.

Yr hyn y mae'n ei olygu i mi fel unigolyn pan gaiff y safon o fewn y thema hon ei chyrraedd:

- Mae adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol i wella fy nghanlyniadau iechyd.
- Rwy'n gweithio gyda'r GIG i wella'r defnydd o adnoddau.
- Staff hyfforddedig o ansawdd sy'n chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflenwi gofal a chymorth rhagorol ar fy nghyfer i a'm teulu.

Safon 7.1 Y Gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen.

Bydd angen i'r gwasanaeth iechyd ystyried y meini prawf canlynol ar gyfer cyrraedd y safon:

Meini Prawf

Mae staff yn cael eu galluogi i ddysgu a datblygu i'w llawn botensial. Mae gan arweinwyr unrhyw sefydliad yn y GIG ddyletswydd i osod y cywair priodol a hybu'r diwylliant cywir, a sicrhau bod aelodau unigol o staff yn gallu cyflawni eu cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau sydd o safon uchel ac yn ddiogel.

Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gweithlu sydd â sgiliau priodol ac sy'n gynaliadwy trwy:

- fod â chynlluniau gweithlu effeithiol ar waith sydd wedi'u hintegreiddio â chynlluniau'r gwasanaeth a chynlluniau ariannol;
- diwallu anghenion y boblogaeth a wasanaethir trwy gymysgedd priodol o sgiliau gyda staff yn meddu ar ymwybyddiaeth ieithyddol a'r gallu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;

- hyrwyddo gwelliant parhaus gwasanaethau trwy wella ffyrdd o weithio;
- galluogi cyflenwad o hyfforddeion, myfyrwyr, staff newydd gymhwyso a recriwtiaid newydd a'u datblygiad;
- sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu gofynion traws-sefydliadol/rhanbarthol/Cymru gyfan o ran y gweithlu lle y bo'n briodol.

Mae'r gweithlu:

- yn cael yr holl wiriadau angenrheidiol cyn eu cyflogi ac yna'n gyfnodol ac maent wedi cofrestru gyda'r cyrff perthnasol;
- yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac mae ganddynt y cymwysterau a'r cymhwysedd priodol i wneud y gwaith y maent yn ei gyflawni;
- yn ymddwyn, ac yn cael eu trin, yn unol â safonau a chodau ymddygiad dynodedig;
- yn gallu codi pryderon, yn gyfrinachol a heb ragfarn, ynglŷn ag unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaethau, triniaethau neu brosesau rheoli;
- yn cael eu mentora, eu goruchwylio a'u helpu i gyflawni eu rôl;
- yn cael eu trin yn deg pan fydd eu perfformiad yn peri pryder;
- yn cael y sgiliau, yr offer a'r cymorth priodol y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau i safon uchel yn gyson.

Mae'r gweithlu'n cael cymorth priodol i'w helpu i:

- gynnal a datblygu cymwyseddau er mwyn datblygu i'w llawn botensial;
- mynychu sesiynau sefydlu a rhaglenni hyfforddiant gorfodol;
- cael arfarniad blynyddol a chynllun datblygu personol;
- datblygu eu rôl;
- dangos datblygiad proffesiynol parhaus;
- manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu arferion cydweithredol a gwaith tîm;
- gweithio'n agos gyda'i gilydd, gan atal dyblygu ymdrechion a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

Defnyddio'r Safonau Iechyd a Gofal

Nid yw'r Safonau Iechyd a Gofal wedi'u bwriadu i osod haen ychwanegol o ofynion ar wasanaethau iechyd, ond yn hytrach darparu'r fframwaith ar gyfer y modd y caiff gwasanaethau eu trefnu, eu rheoli a'u cyflenwi o ddydd i ddydd. Bydd disgwyl i wasanaethau iechyd ddeall ble maent ar hyn o bryd o ran cyrraedd y safonau hyn. Mae sawl ffordd y gellir gwneud hyn, gan gynnwys:

- trwy hunanasesiad gonest, a brofwyd yn dda trwy ddefnyddio mecanweithiau megis archwiliadau mewnol ac archwiliadau clinigol;
- cyfranogi mewn prosesau adolygu cymheiriaid;
- annog ac ymateb i adolygiadau allanol gan gyrff megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- gweithredu ar adborth gan gyrff megis Cyngorau Iechyd Cymuned a'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Mae'r meini prawf a ddisgrifir o dan bob safon wedi'u bwriadu i helpu gyda hyn er y gall sefydliadau gofal iechyd ddangos eu bod yn ateb gofynion y Safonau Iechyd a Gofal mewn ffyrdd dilys eraill, ac yna sefydlu cynlluniau gwella blaengar i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Pan fyddant yn contractio gwasanaethau gan ddarparwyr annibynnol rhaid i wasanaethau iechyd nodi'n eglur mewn cytundebau beth yw'r disgwyliadau ar gyfer cyrraedd y safonau hyn a bod â systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac adnabod unrhyw welliannau angenrheidiol.

Er mwyn ysgogi gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal iechyd mae'n bwysig bod penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau clinigol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael.

Mae gweithredu canllawiau ac archwiliadau clinigol yn ffordd a gydnabyddir yn rhyngwladol o roi tystiolaeth ar waith. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn ysgogiad pwysig ar gyfer gweithredu canllawiau clinigol a phroffesiynol cenedlaethol a chyfranogi mewn archwiliadau ar bob lefel mewn gofal iechyd.

Bydd y fframwaith Safonau'n cael ei danategu gan ganllawiau ategol ar gyfer gwasanaethau iechyd. Bydd y rhain yn cael eu gosod ar wefan e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru a byddant yn cynnwys:

- nodi'r thema;
- disgrifiad o egwyddor pob thema;
- yr hyn y mae'r themâu'n ei olygu i bobl;
- disgrifiad o'r safonau sy'n berthnasol i bob thema;
- meini prawf ar gyfer pob safon;
- cyfeiriadau at ddeddfwriaeth, gofynion, offer a gwybodaeth ategol sy'n berthnasol.

Bydd canllawiau'n cael eu diweddarau fel y bo'r angen i adlewyrchu meysydd newydd i'w gwella a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru ar gael yma:

www.wales.nhs.uk/governance-emanual/

Rhestr Termau

Anghydraddoldebau Iechyd

Gwahaniaethau yn iechyd pobl rhwng ardaloedd a rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

Anableddau Dysgu

Lleihad sylweddol yn y gallu i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, i ddysgu sgiliau newydd. Llai o allu i ymdopi'n annibynnol sy'n dechrau cyn bod rhywun yn oedolyn ac yn cael effeithiau parhaus ar ddatblygiad.

Archwiliad Clinigol

Proses gwella ansawdd sy'n ceisio gwella gofal a chanlyniadau i gleifion trwy adolygiad systematig o ofal yn erbyn meini prawf penodol a gweithredu newid. Mae agweddau ar strwythur, prosesau a chanlyniadau gofal yn cael eu dethol a'u gwerthuso'n systematig yn erbyn meini prawf penodol. Lle nodir hynny, mae newidiadau'n cael eu gweithredu ar lefel unigolyn, tîm, neu wasanaeth a defnyddir gwaith monitro pellach i gadarnhau gwelliant o ran cyflenwi gofal iechyd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn offeryn sy'n helpu sefydliadau i wneud yn siŵr bod eu polisiau a'r ffyrdd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau, yn gwneud yr hyn y maent wedi'u bwriadu i'w wneud a hynny i bawb.

Atal a rheoli heintiau

Polisiau a gweithdrefnau a ddefnyddir i leihau'r risg o ledaenu heintiau, yn enwedig mewn ysbytai, ac yn y gymuned.

Canllawiau NICE

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canllawiau clinigol sy'n ymdrin â thriniaeth a gofal priodol ar gyfer cleifion â chlefydau a chyflyrau penodol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.
- Arfarniadau o dechnoleg sy'n ymdrin â defnyddio meddyginiaethau a thriniaethau newydd a phresennol yn y GIG yng Nghymru a Lloegr.
- Gweithdrefnau ymyriadol sy'n ystyried a yw'r gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer diagnosis neu driniaethau'n ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da ar gyfer defnydd rheolaidd.

Clinigwyr

Staff â chymwysterau proffesiynol sy'n darparu gofal clinigol ar gyfer cleifion.

Contractwr Annibynnol

Person neu gorff sy'n darparu gofal dan drefniadau gydag un o gyff y GIG, megis contractwr gwasanaethau deintyddol cyffredinol, contractwr gwasanaethau meddygol cyffredinol, contractwyr optometreg a chontractwyr fferylliaeth.

Cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu'n ddull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys dinasyddion, cymunedau, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi, gydag arbenigedd pawb yn cael ei gyfuno i gyflawni canlyniadau mwy effeithiol a chynaliadwy a phrofiad gwell i bawb.

Cyfoes

Yn bodoli, yn dechrau, neu'n digwydd yn yr un cyfnod o amser.

Cyrff GIG Cymru

Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

Deddfwriaeth

Y weithred neu'r broses o wneud deddfau neu ddeddfu.

Defnyddiwr gwasanaethau

Unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG ac a all hefyd gael ei ystyried yn glaf.

Dementia

Nid yw dementia yn glefyd ynddo'i hun. Mae dementia yn air a ddefnyddir i ddisgrifio grŵp o symptomau sy'n digwydd pan fo celloedd yr ymennydd yn peidio â gweithio'n iawn.

Dinasyddion

Unrhyw un sy'n cael neu yr effeithir arno gan wasanaethau cyhoeddus. Yn y GIG, cleifion yw'r dinasyddion amlwg; ond ceir rhai eraill y mae'n rhaid i'r GIG eu hystyried – perthnasau cleifion, er enghraifft. Efallai y bydd sefydliadau'n diffinio hyn mewn gwahanol ffyrdd – claf, defnyddiwr gwasanaethau, derbynyddion gwasanaethau a.y.b.

Dyfeisiau Meddygol

Yr holl gynhyrchion ac eithrio meddyginiaethau, a ddefnyddir mewn gofal iechyd ar gyfer diagnosis, atal, monitro neu driniaeth. Mae'r ystod o gynhyrchion yn eang iawn ac mae'n cynnwys lensys cyffwrdd a chondomau; falfiau calonnau a gwelyau ysbytai; offer dadebru a pheiriannau radiotherapi; offerynnau llawfeddygol a chwistrelli; cadeiriau olwyn a fframiau cerdded.

Fframweithiau llywodraethu ymchwil

Mae hyn yn diffinio egwyddorion eang llywodraethu ymchwil da ac mae'n bwysig o ran sicrhau bod ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei chyflawni i safonau gwyddonol a moesegol uchel ac mae'n gymwys i'r holl ymchwil a wneir o fewn cylch gwaith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gofal Iechyd

Gwasanaethau a ddarperir er mwyn, neu mewn perthynas ag atal, diagnosio neu drin afiechyd, a hybu a diogelu iechyd y cyhoedd.

Gofal Sylfaenol

Gwasanaethau iechyd cyswllt cyntaf sydd ar gael yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Gofalwr

Unigolyn sy'n rhoi'r cymorth corfforol neu emosiynol i alluogi unigolyn arall i gyfranogi mewn bywyd pob dydd. Teuluoedd neu ffrindiau yw'r grŵp mwyaf sy'n rhoi gofal ac fe'u gelwir weithiau'n 'ofalwyr anffurfiol' neu 'ofalwyr teuluol'.

Gofynion o ran Ansawdd

Bydd gofynion o ran ansawdd yn cael eu sefydlu trwy'r Safonau Iechyd a Gofal. Maent yn disgrifio'r gofal y bydd clinigwyr ac eraill yn ei ddefnyddio fel arweiniad wrth ymarfer.

Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Mae wedi'i fwriadu i ganolbwyntio ar bobl, er mwyn hybu annibyniaeth, rhoi dewis a rheolaeth ac mae'n seiliedig ar athroniaeth tîm cydweithredol.

Grwpiau Gwarchoddedig

Nodweddion personol a warchodir gan y gyfraith (Deddf Cydraddoldeb 2010). Y 9 nodwedd yw: Oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

Gwasanaeth Iechyd

Cyrff GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau unigol a'r cyhoedd.

Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol

Rhywun sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

Gweithlu

Cyfanswm y bobl a gyflogir neu sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau'r GIG neu gontractwyr neu'r rhai â breintiau ymarfer.

Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd

Yr holl heintiau a gaiff eu dal yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i ofal iechyd.

Hybu Iechyd

Mae'n cynnwys darparu gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw a sut i wneud y defnydd gorau o wasanaethau iechyd, gyda'r bwriad o alluogi pobl i wneud dewisiadau rhesymegol ynghylch iechyd a sicrhau ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n pennu iechyd y gymuned.

Iechyd y Cyhoedd

Mae iechyd y cyhoedd yn ymwneud â gwella iechyd y boblogaeth, yn hytrach na thrin clefydau cleifion unigol. Mae swyddogaethau iechyd y cyhoedd yn cynnwys:

- Gwyliadwriaeth, monitro a dadansoddi iechyd.
- Ymchwilio i achosion o glefydau, epidemigau a risg i iechyd.
- Sefydlu, dylunio a rheoli rhaglenni hybu iechyd ac atal clefydau.
- Galluogi a grymuso cymunedau i hybu iechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- Creu a chynnal partneriaethau ar draws y llywodraeth, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- Sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau a deddfau i ddiogelu a hybu iechyd.
- Datblygu a chynnal gweithlu iechyd y cyhoedd amlddisgyblaethol tra addysgedig a hyfforddedig.
- Sicrhau bod gwasanaethau'r GIG yn perfformio'n effeithiol i gyrraedd nodau o ran gwella iechyd, atal clefydau a lleihau anghydraddoldebau.
- Sicrhau ansawdd swyddogaethau iechyd y cyhoedd.

Lles

Mae lles yn gysyniad eang sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd rhywun.

Llywodraethu

System o atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, y mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio oddi mewn iddo, gan wneud penderfyniadau ac arwain eu pobl i gyflawni eu hamcanion.

Llywodraethu clinigol

System lle mae sefydliadau'r GIG yn atebol am fynd ati'n barhaus i wella ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau gofal uchel, trwy greu amgylchedd lle bydd rhagoriaeth glinigol yn ffynnu.

Meincnodau

Defnyddir meincnodau fel cymaryddion i gymharu perfformiad rhwng sefydliadau neu systemau tebyg.

MHRA

Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

Mynediad

I ba raddau y mae pobl yn gallu cael yr wybodaeth, y gwasanaethau neu'r gofal y mae ei (h) angen arnynt.

Nam ar y synhwyrâu

Mae nam ar y synhwyrâu'n digwydd pan fo nam yn effeithio ar olwg neu glyw rhywun.

NICE

Rôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yw rhoi canllawiau awdurdodol, cadarn a dibynadwy i gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am "arfer gorau" presennol. Mae'r canllawiau'n ymdrin â thechnolegau iechyd unigol (gan gynnwys meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol, technegau diagnostig, a gweithdrefnau) a rheolaeth glinigol ar gyflyrau penodol.

Niwrolegol

Y gangen o feddygaeth neu fioleg sy'n ymdrin ag anatomi, gweithrediadau, ac anhwylderau organig sy'n ymwneud â'r nerfau a'r system nerfol.

Rheoli risg

Mae hyn yn ymwneud â'r holl brosesau sy'n gysylltiedig ag adnabod, asesu a barnu ynghylch risgiau, aseinio perchenogaeth arnynt, cymryd camau i'w lliniaru neu eu rhagweld, a monitro ac adolygu cynnydd.

Safonau

Mae safonau'n ddull o ddisgrifio'r lefel o ansawdd y mae disgwyl i sefydliadau gofal iechyd ei chyrraedd neu ymgyrraedd ati. Gall perfformiad sefydliadau gael ei asesu yn erbyn y lefel hon o ansawdd.

Sicrhau ansawdd

Proses systematig o wirio bod cynnyrch, neu wasanaeth sy'n cael ei ddatblygu, yn ateb gofynion penodol.

Strôc

Marwolaeth sydyn celloedd yr ymennydd mewn un rhan oherwydd llif gwaed annigonol.